**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1439
Ein cyf/Our ref KSNWT/10621/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

12 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deiseb P-06-1439. Gwella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus hanfodol hwyr y nos yn Ne a De-orllewin Cymru.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan y ddeiseb ac yn gwerthfawrogi ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater pwysig hwn.

Rydym wedi ymrwymo i wella'r system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac yn deall ei phwysigrwydd i'r economi, twristiaeth a chymunedau. Rwy'n falch bod Trafnidiaeth Cymru wedi gallu cyflwyno gwasanaethau rheilffordd hwyrach ac amlach ar Linellau Craidd y Cymoedd yn ne Cymru yr haf hwn. Cefnogir y gwelliannau hyn drwy gyflwyno trenau newydd sbon ledled Cymru, gan roi hwb i'r capasiti a gwella'r profiad teithio i deithwyr sy'n teithio i ac o ddigwyddiadau. Ond mae mwy yr hoffem allu ei wneud, gan gynnwys yn Ne-orllewin Cymru.

Fodd bynnag, mae hwn yn fater cymhleth ac mae cyfyngiadau yn eu lle ar hyn o bryd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd a bysiau yng Nghymru sy'n cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau. Bydd masnachfreinio bysiau yn galluogi Trafnidiaeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i ddylunio amserlen a rhwydwaith bysiau newydd i gefnogi anghenion cymunedau lleol yn y ffordd orau - gan gynnwys yr economi gerddoriaeth lawr gwlad yn Abertawe a'r ardaloedd cyfagos.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda lleoliadau cerddoriaeth drwy Cymru Greadigol ac rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sector drwy gyfarfodydd grŵp cynghori rheolaidd. Yn ogystal â hynny, rydym wedi grymuso awdurdodau lleol i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod gan bob rhanbarth rôl weithredol wrth lunio'r ffordd orau o ddiwallu ei anghenion trafnidiaeth penodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i wella'r system drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales